Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cyfarfod mewn Blwch: Hawliau plant yng Nghymru

Pecyn adnoddau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynnwys y blwch hwn:

Yn y pecyn hwn fe gewch y canlynol:

- **Cyflwyniad** - gan gynnwys poster 'Deall Eich Hawliau!'
- **Gêm termau** - paru teils.
- **Posteri cwestiynau**
- **Slipiau pleidleisio**
- **Cyfarwyddiadau i arweinydd y gweithgaredd** - mae'n egluro beth i'w wneud fel grŵp.
- **Arwydd ar gyfer y blwch pleidleisio** - Sefydlwch bleidlais gudd i'r cyfranogwyr ddweud wrthym ba hawl sydd bwysicaf iddynt. Gwnewch eich blwch pleidleisio eich hun gan ddefnyddio blwch heb ei ddefnyddio. Gwnewch agoriad yn y blwch sy'n ddigon mawr ar gyfer y slip pleidleisio. Rhowch arwydd y blwch pleidleisio ar y blaen er mwyn dangos i'r cyfranogwyr lle y dylent roi eu pleidlais.
- **Ffurflenni adborth** - Mae angen inni glywed yr hyn a ddywedodd eich cyfranogwyr. Ar ôl ichi orffen y gweithgaredd, cwblhewch y ffurflenni adborth a chyflwynwch eich atebion erbyn dydd Gwener 4 Hydref 2019.
- **Ffurflenni diogelu data** a **chaniatâd lluniau.**

Bydd angen y canlynol arnoch chi hefyd:

- Papur a beiros
- 'Blu tack' a nodiadau Post-it
- Blwch heb ei ddefnyddio i wneud eich blwch pleidleisio eich hun
- Cysylltiad â'r rhyngrwyd i weld y ffilm a'r ffurflen adborth (dewisol)

Cyflwyniad

Ynglŷn â'r ymchwiliad

Mae gan **Gynulliad Cenedlaethol Cymru 14 o bwyllgorau**. Un o'r pwyllgorau hyn yw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae'r pwyllgor hwn yn ymchwilio i bynciau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc ac addysg.

Yn 2011 gwnaeth **Llywodraeth Cymru** ddeddf a wnaeth **hawliau plant** yn bwysig iawn. Gelwir hyn y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Bron ddeng mlynedd yn ddiweddarach, mae'r Pwyllgor bellach yn edrych i weld a yw'r gyfraith hon wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i fywydau plant a phobl Ifanc.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i wybod:

1. Pa mor dda y mae plant yn gwybod eu hawliau;
2. A yw plant yn credu bod ganddynt fynediad da i'r hawliau hyn; a
3. Pa hawliau sydd bwysicaf iddynt.

Ar ôl inni wrando ar farn pawb, bydd y Pwyllgor yn dweud wrth Lywodraeth Cymru beth sydd angen iddi ei wneud i wella sut y mae'r gyfraith hon yn gweithio.

I gael rhagor o fanylion am hawliau plant, edrychwch ar y poster 'Deall Eich Hawliau' a luniwyd gan **Gomisiynydd Plant Cymru**.

Cymerir pob erthygl o **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**, neu UNCRC yn fyr.

Cyfarwyddiadau i Arweinydd y Gweithgaredd

Cyflwyniad

2 funud

Mewn grŵp mawr, gofynnwch i'r cyfranogwyr roi eu dwylo i fyny os;

- Ydynt wedi clywed am 'hawliau plant'
- Ydynt wedi clywed am 'Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn', neu UNCRC yn fyr.

Gwnewch nodyn o faint sydd wedi a faint sydd heb i'r ddau gwestiwn er mwyn rhoi adborth yn nes ymlaen.

Os yw llai na hanner wedi clywed am 'hawliau plant', defnyddiwch **Weithgareddau A**.

Os yw dros hanner wedi clywed am 'hawliau plant', defnyddiwch **Weithgareddau B.**

Am yr ymchwiliad

10 minutes

Y ddau Grŵp Gweithgaredd

Rhannwh y grŵp cyfan yn grwpiau o 2-3 cyfranogwr.

Cyn y gweithgaredd, rhannwch y gêm termau - paru teils a chael y cyfranogwyr i gyfateb y termau i'r disgrifiad cywir.

Cadarnhewch fod pawb wedi rhoi'r atebion yn y lle cywir ac atebwch unrhyw gwestiynau pellach a allai fod ganddynt am y derminoleg.

Darllenwch yn uchel yr adran 'Ynglŷn â'r ymchwiliad' a sicrhewch fod pawb wedi deall drwy ofyn;

- Faint o bwyllgorau sydd?
- Pa bwyllgor sy'n ymchwilio i hawliau plant?
- Beth maen nhw eisiau ei wybod?

Dywed wrthym am dy hawl

15 minutes

Gweithgareddau A

Rhannwch y grŵp cyfan yn grwpiau o 4-5 cyfranogwr.

Gofynnwch iddynt feddwl am eu hawliau - y pethau sydd eu hangen ar blant i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus.

Gofynnwch iddynt wneud rhestr neu dynnu lluniau o'r pethau sy'n hawliau iddynt, yn eu barn hwy. Gallant fod yn lliwgar. Gallant ddisgrifio golygfa neu gallant fod yn wrthrych.

Gallant ddefnyddio'r poster 'Deall Eich Hawliau!' i'w helpu.

Rhowch derfyn amser iddynt a phan fydd ar ben, ewch o gwmpas a chylchwch lle maent wedi nodi eu hawliau'n gywir.

Casglwch y papurau hyn ar gyfer adborth yn nes ymlaen.

Gweithgareddau B

Rhowch y posteri cwestiynau ar waliau'r ystafell mewn gwahanol ardaloedd. Rhowch nodiadau Post-it i'r cyfranogwyr a gofynnwch iddynt fynd o amgylch yr ystafell a nodi eu hatebion, gan eu gosod ar y poster perthnasol. Gallant sgwrsio â'u ffrindiau wrth iddynt geisio meddwl am eu hatebion:

- Dywed wrthym pryd y gwnes di ddysgu am hawliau plant neu'r UNCRC gyntaf? Wyt ti'n cofio faint oed oeddet ti?
- Ble wyt ti wedi dod o hyd i'r wybodaeth orau am dy hawliau e.e. yn yr ysgol, ar-lein, mewn clybiau ieuenctid, gan dy rieni neu ofalwyr?
- Wyt ti'n meddwl bod dy hawliau'n well nawr o gymharu â phan wnes di ddysgu amdanyn nhw gyntaf?
- Pa hawliau wyt ti'n meddwl sy'n well neu'n waeth a pham?

Dangos dy hawliau i ni

15 munud

Gweithgareddau A

Fel grŵp ffurfiwch gylch fel y gall pawb glywed arweinydd y gweithgaredd. Gofynnwch y cwestiynau hyn i'r cyfranogwr gan roi digon o amser iddynt feddwl am eu hatebion a gwneud nodyn o'u hatebion. Dylech annog pawb i gyfrannu eu stori eu hunain os ydynt am wneud hynny:

- Nawr eich bod chi'n gwybod am eich hawliau, ydych chi'n meddwl bod eich hawliau'n cael eu bodloni?
- A oes unrhyw hawliau y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gwneud mwy yn eu cylch a pham?
- Pryd wnaethoch chi ddysgu gyntaf am hawliau plant neu'r UNCRC? *(cofiwch efallai y bydd rhai o'r cyfranogwyr yn ateb eu bod ond newydd ddysgu amdanynt ond efallai bod rhai yn gwybod amdanynt ers peth amser)*
- Ydych chi'n meddwl bod eich rhieni a/neu ofalwyr yn gwybod beth yw eich hawliau?

Gofynnwch i'r rhai a oedd yn gwybod am eu hawliau:

- Ble rydych chi wedi dod o hyd i'r wybodaeth orau am eich hawliau e.e. yn yr ysgol, ar-lein, mewn clybiau ieuenctid, gan eich rhieni neu ofalwyr?
- Ydych chi'n meddwl bod eich hawliau'n well nawr o gymharu â phan wnaethoch chi ddysgu amdanyn nhw gyntaf?

15 munud

Gweithgareddau B

Rhannwch y grŵp cyfan yn grwpiau o 4-5 cyfranogwr

Gofynnwch iddynt feddwl am eu hawliau - y pethau sydd eu hangen ar blant i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus.

Gofynnwch iddynt wneud rhestr o'u hawliau, yn eu barn hwy. Gallant fod yn wrthrychau neu'n senarios, e.e. mynediad at fwyd iach neu i beidio â chael eu seiberfwlio.

Rhowch 5 munud iddynt greu eu rhestr ac yna 5 munud i ddewis lle mae eu rhestr yn dod o dan yr hawliau hyn;

- Fy hawl i gael addysg dda
- Fy hawl i iechyd corfforol ac iechyd meddwl da
- Fy hawl i gael mynediad at deithio
- Fy hawl i deimlo'n ddiogel gartref
- Fy hawl i deimlo'n ddiogel yn yr ardal rwy'n byw ynddi
- Fy hawl i gael fy nghlywed gan bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant
- Fy hawl i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth os ydw i'n anabl

Gofynnwch i'r grwpiau roi adborth ar eu hatebion i'r grŵp cyfan a sicrhewch eu bod wedi nodi eu hawliau'n gywir.

Casglwch eu papurau ar gyfer yr adborth yn nes ymlaen.

Amser i bleidleisio

10 munud

Y ddau Grŵp Gweithgaredd

Adeiladwch y blwch pleidleisio - neu gofynnwch i un o'r cyfranogwyr wneud hynny.

Gwyliwch y fideo fel grŵp i gyflwyno'r themâu. Dyma'r linc:

https://spark.adobe.com/video/uEf7Pdm8trlpw

Cyn y sesiwn gwnewch ddigon o gopïau o'r slipiau pleidleisio i ddosbarthu un yr un i'r cyfranogwyr.

Cynhaliwch bleidlais gudd. Gofynnwch i'r cyfranogwyr benderfynu beth maent yn ei feddwl yw'r hawl bwysicaf y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy o waith arno drwy ddewis o'r hawliau a restrir ar y slipiau pleidleisio. Neu os ydynt yn teimlo bod hawl nad yw ar y rhestr, dylech eu hannog i ychwanegu hyn at yr opsiwn terfynol.

Dylech eu cyfarwyddo i roi croes yn y blwch wrth ymyl yr un sydd bwysicaf yn eu barn hwy, ei blygu a'i roi yn y blwch pleidleisio yn ddirgel.

Efallai y bydd y poster 'Deall Eich Hawliau!' yn eu helpu i ddeall yr erthyglau unigol a gwneud penderfyniad ond hefyd yn annog sgwrsio am enghreifftiau bywyd go iawn.

Gofynnwch i'r cyfranogwr gyfrif y canlyniadau. Gorffennwch y sesiwn drwy gyhoeddi enillydd y bleidlais.

Adborth

15 munud

Arweinydd y Gweithgaredd yn unig

Gan ddefnyddio'r ffurflenni adborth yng nghefn y pecyn hwn, neu'r arolwg ar-lein, atebwch y cwestiynau a fydd yn cael eu defnyddio i fwydo i'r ymchwiliad gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

https://www.surveymonkey.co.uk/r/hawliauplantcymru

Mae'n bwysig ein bod yn clywed gan y plant am eu profiadau byw felly gorau po fwyaf o wybodaeth y gallwch ei nodi o'ch sesiwn.

Mae croeso ichi anfon lluniau ynghyd â'r ffurflenni caniatâd lluniau at **seneddallgymorth@cynulliad.cymru**

Dylech ddychwelyd eich ffurflen adborth, ffotograffau a'r lluniau a wnaeth y plant yn ystod y gweithgaredd hwn erbyn dydd Gwener 4 Hydref 2019.